

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 15/2014

www.cymru.gov.uk

Arolwg o agweddau'r cyhoedd at roi organau: Adroddiad cryno Cam 3



Arolwg o agweddau'r cyhoedd at roi organau: **Adroddiad cryno Cam 3**

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi **Llywodraeth Cymru**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978 1 4734 0984 2

© Hawlfraint y Goron 2014

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Derbyniodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau a meinweoedd yr ymadawedig yng Nghymru, a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod i rym er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol beth fydd y newidiadau yn ei olygu a'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch hon a llywio'r broses o'i datblygu, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraith rhoi organau, ac agweddau at newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion hyn o ran ymchwil, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Cyf. Mae'r data'n cael eu casglu ar gyfnodau rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016.

1.2 Yr adroddiad

Gofynnwyd cwestiynau am roi organau i 1,022 o ymatebwyr a gafodd eu cyfweild fel rhan o gam mis Tachwedd 2013 o Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Cyf. Bwriedir i sampl yr arolwg gynrychioli'r boblogaeth breswyl sy'n oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith maes rhwng 15 a 26 Tachwedd 2013, gyda rhai cyfweiliadau yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn (pob un ohonynt cyn lansio gwefan newydd Rhoi Organau Cymru¹ ar 1 Rhagfyr 2013, a'r gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus a hysbysebu cysylltiedig sy'n rhan o'r ymgyrch gyfathrebu ddwy flynedd).

Mae'r adroddiad cryno hwn yn gynrychiolaeth ffeithiol o'r canlyniadau, ac mae'n cyflwyno canfyddiadau am agweddau'r cyhoedd at y system rhoi organau a'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth ohoni - nid yw'n ystyried cysylltiadau achosol. Lle y bo'n bosibl, cymharir y canfyddiadau ag arolygon a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012 (cam 1) a mis Mehefin 2013 (cam 2).

Caiff adroddiad llawn â dadansoddiadau ychwanegol ei chyhoeddi yn dilyn cam 4 o'r arolwg, y disgwylir iddo gael ei gynnal ym mis Mehefin 2014 (cyhoeddir yr adroddiad yn ddiweddarach).

¹ www.organdonationwales.org | www.rhoiorganau.org

2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o'r newidiadau a gaiff eu gwneud i'r system bresennol o roi organau. At ei gilydd, dywedodd tua chwe allan o ddeg ymatebydd (56 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau. Mae hyn yn cymharu â 57 y cant a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig ar gam 2, a 53 y cant ar gam 1 (Tabl 2.1, yn Atodiad A).

Yng Ngogledd Cymru y gwelwyd yr ymwybyddiaeth fwyaf o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r system rhoi organau (65 y cant) ac yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru y gwelwyd yr ymwybyddiaeth leiaf (52 y cant). Roedd ymwybyddiaeth yn dueddol o fod yn is ymhlith:

- Pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed (41 y cant);
- Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (53 y cant).

O blith y rhai a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r system rhoi organau, dywedodd tua thri chwarter ohonynt (73 y cant) mai prif ffynhonnell eu hymwybyddiaeth oedd sioe newyddion neu raglen arall ar y teledu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, yn ddigymell, sut y gallai'r system newid yn eu barn nhw. Dywedodd tua thri chwarter ohonynt (76 y cant) y byddai'n newid i system o optio allan, neu system cydsyniad tybiedig.

3. Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad o'r system rhoi organau newydd i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol. At ei gilydd, roedd chwe allan o ddeg ymatebydd (60 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system newydd. Mae hyn yn cymharu â 58 y cant a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newidiadau arfaethedig ar gam 1 a cham 2 (Tabl 3.1).

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru y gwelwyd yr ymwybyddiaeth fwyaf o fanylion y gyfraith, lle roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr (67 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y cynnig, ac yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru y gwelwyd yr ymwybyddiaeth leiaf (48 y cant). Roedd ymwybyddiaeth yn dueddol o fod yn is ymhlith:

- Pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed (39 y cant);
- Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (54 y cant).

4. Agweddau at y newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid, neu yn erbyn, y newid mewn deddfwriaeth, neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu. Ar gam 3, roedd 57 y cant o blaid (o gymharu â 61 ar gam 2 a 49 y cant ar gam 1), tra bod 16 y cant yn erbyn (o gymharu â 17 y cant ar gam 2 a 22 y cant ar gam 1). Roedd angen rhagor o wybodaeth ar y gweddill er mwyn penderfynu neu nid oeddent yn gwybod (Tabl 4.1). Yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru y gwelwyd y gefnogaeth fwyaf i'r newid mewn deddfwriaeth (roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr o blaid), ac yn y Cymoedd a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru y gwelwyd y gefnogaeth leiaf (roedd tua hanner yr ymatebwyr o blaid).

Ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed y gwelwyd y gefnogaeth fwyaf i'r newid mewn deddfwriaeth (61 y cant). Roedd y gefnogaeth hefyd yn uwch ymhlith ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 (64 y cant o blaid) nag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (52 y cant o blaid). Gwelwyd hefyd wahaniaeth yn ôl rhyw, gyda 61 y cant o ddynion o blaid o gymharu â 53 y cant o ferched.

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros fod o blaid y newid mewn deddfwriaeth oedd y gellir achub rhagor o fywydau. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros fod yn erbyn y newid oedd ei bod yn cael gwared ar ddewis i'r unigolyn.

5. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth y byddant yn ei wneud yn eu barn hwy pan gyflwynir y system feddal newydd o optio allan o roi organau. Ar gam 3, byddai tua saith allan o ddeg ymatebydd (68 y cant) yn optio i mewn neu'n dewis peidio â gwneud dim (o gymharu â 68 y cant ar gam 2 a 63 y cant ar gam 1), a byddai 15 y cant yn optio allan (o gymharu ag 20 y cant ar gam 2 a 19 y cant ar gam 1).

Ym mhob rhanbarth, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddent yn optio i mewn neu'n dewis peidio â gwneud dim. Fodd bynnag, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn optio allan yn amrywio o 11 y cant (y Canolbarth a'r Gorllewin) i 25 y cant (y Cymoedd).

Roedd cyfran uwch o ymatebwyr 55 oed a throsodd o'r farn y byddent yn optio allan (20 y cant) na'r rhai o dan 55 oed (13 y cant).

6. Datganiadau am y system feddal o optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol (dau wedi'u geirio mewn modd cadarnhaol a dau mewn modd negyddol) am y newidiadau i'r system rhoi organau.

Datganiadau cadarnhaol	Datganiadau negyddol
'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau'	'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'
'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'	'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth'

6.1 Datganiadau cadarnhaol am y system feddal o optio allan

Ar gam 3, cytunodd tua thri chwarter yr ymatebwyr (74 y cant) y bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn achub rhagor o fywydau. Mae hyn yn cymharu â 75 y cant ar gam 2 a 68 y cant ar gam 1 (Tabl 6.1).

Yn yr un modd, cytunodd tri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) ar gam 3 fod y 'system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'. Mae hyn yn cymharu â 76 y cant ar gam 2 a 67 y cant ar gam 1 (Tabl 6.2).

6.2 Datganiadau negyddol am y system feddal o optio allan

Ar gam 3, cytunodd traean o'r ymatebwyr (33 y cant) bod 'rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'. Mae hyn yn cymharu â 33 y cant ar gam 2 a 38 y cant ar gam 1 (Tabl 6.3).

Ar gam 3, cytunodd tua thri allan o ddeg ymatebydd (31 y cant) fod y 'system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth'. Mae hyn yn cymharu â 32 y cant ar gam 2 a 42 y cant ar gam 1 (Tabl 6.4).

7. Rôl y teulu mewn perthynas â rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu?'. Ar gam 3, dywedodd pedwar allan o ddeg ymatebydd (40 y cant) eu bod wedi gwneud hynny. Mae hyn yn cymharu â 42 y cant ar gam 2, a 38 y cant ar gam 1 (Tabl 7.1).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd 'Petaech chi'n marw, ydych chi'n meddwl y byddai aelod o'ch teulu'n gwybod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau?'. Ar gam 3, roedd 54 y cant o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai aelod o'u teulu

yn gwybod eu dymuniadau. Mae hyn yn cymharu â 61 y cant ar gam 2, a 62 y cant ar gam 1 (Tabl 7.2).

8. Datganiadau am rôl y teulu

Darllenwyd pedwar datganiad i'r ymatebwyr (y mae dau ohonynt yn wir, a dau yn anwir) am rôl y teulu mewn perthynas â rhoi organau o dan y system feddal newydd o optio allan lle nad yw'r ymadawedig wedi optio allan. Yna gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn credu bod y datganiadau yn wir neu'n anwir.

Datganiadau gwir	Datganiadau anwir
'Os bydd y penderfyniad i roi yn peri gofid i'r teulu, ni fydd clinigwyr yn bwrw ati â'r broses rhoi organau'	'Ni fydd gan y teulu unrhyw ran i'w chwarae yn y broses rhoi organau'
'Gall y teulu ddarparu tystiolaeth bod y sawl sydd wedi marw yn gwrthwynebu rhoi ei organau ond na chafodd gyfle i gofrestru yn ystod ei oes'	'Gall y teulu drechu dymuniadau'r sawl sydd wedi marw'

Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn canfod dealltwriaeth y cyhoedd o'r maes hwn o'r ddeddfwriaeth, a'i monitro dros amser. Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn ar gam 1.

8.1 Datganiadau gwir am rôl y teulu

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (54 y cant) ar gam 3 yn gywir ei bod yn wir y 'gall y teulu ddarparu tystiolaeth bod y sawl sydd wedi marw yn gwrthwynebu rhoi ei organau ond na chafodd gyfle i gofrestru yn ystod ei oes'. Mae hyn yn cymharu â 58 y cant o'r ymatebwyr ar gam 2 (Tabl 8.1).

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (48 y cant) ar gam 3 yn gywir ei bod yn wir 'os bydd y penderfyniad i roi yn peri gofid i'r teulu, ni fydd clinigwyr yn bwrw ati â'r broses rhoi organau'. Mae hyn yn cymharu â 51 y cant o'r ymatebwyr ar gam 2 (Tabl 8.2).

8.2 Datganiadau anwir am rôl y teulu

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (43 y cant) ar gam 3 yn gywir ei bod yn anwir na fydd gan y teulu unrhyw ran i'w chwarae yn y broses rhoi organau'. Mae hyn yn cymharu â 48 y cant o'r ymatebwyr ar gam 2 (Tabl 8.3).

Ar gam 3, roedd 45 y cant o'r ymatebwyr yn gywir ei bod yn anwir y 'gall y teulu drechu dymuniadau'r sawl sydd wedi marw'. Mae hyn yn cymharu â 46 y cant o'r ymatebwyr ar gam 2 (Tabl 8.4).

Atodiad A: Tablau

A.1 Meintiau'r sampl a thalgrynnu

Mae'r holl dablau yn seiliedig ar y meintiau sampl canlynol:

- Mehefin 2012: 1,006 o ymatebwyr
- Mehefin 2013: 1,015 o ymatebwyr
- Tachwedd 2013: 1,022 o ymatebwyr

Efallai na fydd y canrannau yn y tablau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant am fod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

A.2 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

Tabl 2.1: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau a gaiff eu gwneud i'r system bresennol o roi organau?

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Ydw	53	57	59
Nac ydw	46	41	38
<i>Ddim yn gwybod</i>	<i>1</i>	<i>1</i>	<i>3</i>

Ar gam 1 a cham 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi'n gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?'

A.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

Tabl 3.1: Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn? (Dangoswyd disgrifiad i'r ymatebwyr o'r system newydd)

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Oeddwn	58	58	60
Nac oeddwn	41	41	38
<i>Ddim yn gwybod</i>	<i>1</i>	<i>1</i>	<i>2</i>

A.4 Agweddau at y newidiadau i'r system rhoi organau

Tabl 4.1: Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?^a

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Rwyf o blaid y newid hwn mewn deddfwriaeth	49	61	57
Rwyf yn erbyn y newid hwn mewn deddfwriaeth	22	17	16
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf i benderfynu	21	16	17
<i>Ddim yn gwybod</i>	8	6	10

Ar gam 1 a cham 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?'

A.5 Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau

Tabl 5.1: Pan gyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei wneud?

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Optio i mewn neu ddewis peidio â gwneud dim	63	68	68
Optio allan	19	20	15
<i>Ddim yn gwybod</i>	18	12	16

Ar gam 1 a cham 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y bydddech chi'n ei wneud?'

A.6 Datganiadau am y system feddal o optio allan

Datganiadau cadarnhaol am y system feddal o optio allan

Tabl 6.1: 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau'

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Cytuno	68	75	74
Niwtral	25	19	21
Anghytuno	7	6	4

Tabl 6.2: 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Cytuno	67	76	75
Niwtral	20	15	18
Anghytuno	13	9	7

Datganiadau negyddol am y system feddal o optio allan

Tabl 6.3: 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Cytuno	38	33	33
Niwtral	28	29	31
Anghytuno	33	38	36

Tabl 6.4: 'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth'

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Cytuno	42	32	31
Niwtral	22	22	25
Anghytuno	35	46	44

A.7 Rôl y teulu mewn perthynas â rhoi organau

Tabl 7.1: Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu?

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Ydw	38	42	40
Nac ydw	62	57	60

Tabl 7.2: Petaech chi'n marw, ydych chi'n meddwl y byddai aelod o'ch teulu'n gwybod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau?

Ymateb	Mehefin 2012 (%)	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Ydw	62	61	54
Nac ydw	34	35	41
<i>Ddim yn gwybod</i>	5	3	5

A.8 Datganiadau am rôl y teulu

Datganiadau gwir am rôl y teulu

Tabl 8.1: 'Gall y teulu ddarparu tystiolaeth bod y sawl sydd wedi marw yn gwrthwynebu rhoi ei organau ond na chafodd gyfle i gofrestru yn ystod ei oes'

Ymateb	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Gwir	58	54
Anwir	19	21
<i>Ddim yn gwybod</i>	23	25

Tabl 8.2: 'Os bydd y penderfyniad i roi yn peri gofid i'r teulu, ni fydd clinigwyr yn bwrw ati â'r broses rhoi organau'

Ymateb	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Gwir	51	48
Anwir	26	25
<i>Ddim yn gwybod</i>	23	27

Datganiadau anwir am rôl y teulu

Tabl 8.3: 'Ni fydd gan y teulu unrhyw ran i'w chwarae yn y broses rhoi organau'

Ymateb	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Gwir	34	35
Anwir	48	43
<i>Ddim yn gwybod</i>	18	21

Tabl 8.4: 'Gall y teulu drechu dymuniadau'r sawl sydd wedi marw'

Ymateb	Mehefin 2013 (%)	Tachwedd 2013 (%)
Gwir	33	32
Anwir	46	45
<i>Ddim yn gwybod</i>	20	23

Atodiad B: Methodoleg

Bwriedir i sampl Arolwg Omnibws Cymru gynrychioli'r boblogaeth breswyl sy'n oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru. Yr uned samplu yw'r Arolwg Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru gyda thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu fesul awdurdod unedol a graddfa gymdeithasol.

O fewn pob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwotâu demograffig mewn perthynas ag oedran a graddfa gymdeithasol o fewn rhyw at ddiben dewis ymatebwyr. Pennir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw o fewn grwpiau awdurdodau unedol er mwyn rhoi'r nifer gywir i bob cell o fewn cyfanswm Cymru yn deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chynhelir cyfweliad â mwy nag un person fesul cartref. Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadurol (CAPI).

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 15 a 26 Tachwedd 2013, gyda nifer fach o gyfweliadau yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddiwyd cyfanswm o 1,022 o gyfweliadau wyneb yn wyneb at ddibenion yr arolwg hwn.

Diffiniad o ranbarthau

Dengys Tabl B.1 isod pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n rhan o'r ranbarthau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

Tabl B.1: Diffiniad o ranbarthau

Rhanbarth	Awdurdodau unedol	
Gogledd Cymru	Ynys Môn Gwynedd Conwy	Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceredigion Powys	Sir Benfro Sir Gaerfyrddin
Bae Abertawe	Abertawe Castell-nedd Port Talbot	Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cymoedd	Rhondda Cynon Taf Merthyr Tudful	Caerffili Blaenau Gwent
De-ddwyrain Cymru	Bro Morgannwg Caerdydd Casnewydd	Torfaen Sir Fynwy

Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol

Dengys Tabl B.2 isod ddiffiniad o'r dosbarthiad o raddfeydd cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

Tabl A.B: Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol

Graddfa gymdeithasol	Diffiniad
ABC1	
A	Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel uchel
B	Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefelganolradd
C1	Gweithwyr goruchwyllo, clerigol a rheolwyr iau, gweithwyr gweinyddol neu broffesiynol
C2DE	
C2	Gweithwyr llaw crefftus
D	Gweithwyr llaw crefftus a lled grefftus
E	Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y raddfa isaf, pobl ddi-waith ar fudd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

Meintiau is-samplau

Dengys Tabl B.3 isod nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl (wedi'i phwysoli a heb ei phwysoli) a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

Tabl B.3: Niferoedd is-samplau yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a graddfa gymdeithasol

Is-sampl	Sampl heb ei phwysoli	Sampl wedi'i phwysoli
Rhanbarth		
Gogledd Cymru	233	230
Canolbarth a Gorllewin Cymru	161	174
Bae Abertawe	163	174
Y Cymoedd	201	179
De-ddwyrain Cymru	264	265
Oedran		
16 – 34 oed	288	299
35 – 54 oed	302	334
55 – 54 oed	432	389
Rhyw		
Dynion	449	497
Menywod	573	525
Graddfa gymdeithasol		
ABC1	435	429
C2DE	584	591